



# Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol: Cwestiynau cyffredin

**Cwestiwn: Nid oeddwn i'n llwyddiannus o dan Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol. A allaf wneud cais ar gyfer Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol?**

Ateb: Os yw eich cais yn cyd-fynd ag amcanion Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, gallwch chi ymgeisio.

**Cwestiwn: Gwnaethom lwyddo i gael grant o dan Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol. A allwn ni hefyd wneud cais i Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol?**

Ateb: Mae'n rhaid bod gwahaniaeth clir rhwng y gweithgareddau sy'n cael eu cyllido drwy Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a'r cyllid posibl ar gyfer gweithgareddau o dan Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol. Mae'n rhaid i'r cais hefyd gyd-fynd ag amcanion Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol.

**Cwestiwn: Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?**

Ateb: Nid oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar hyn o bryd, ond argymhellir eich bod yn cyflwyno'ch cais cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod digon o gyllid ar gael.

**Cwestiwn: Sut ydw i'n cyflwyno cais?**

Ateb: Mae'n rhaid cyflwyno pob cais drwy Borth Ymgeisio Amlbwrpas CGGC (MAP) <https://map.wcva.cymru>. Gellir gweld fideo canllaw ar sut i gofrestru [yma](https://yma.wcva.cymru).

**Cwestiwn: Mae fy nghymuned wedi dod ynghyd i gynorthwyo ein haelodau mwyaf agored i niwed. A yw'r cyllid hwn yn addas ar ein cyfer ni?**

Ateb: Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn cynnig cyllid sy'n benodol i grwpiau cymunedol. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn <https://communityfoundationwales.org.uk/cy/hafan/>.

**Cwestiwn: Rydyn ni'n chwilio am gymorth gyda chyflogau staff. A yw'r cyllid hwn yn addas?**

Ateb: Gall rolau staff newydd sydd eu hangen i gyflawni gwasanaethau a gweithgareddau hanfodol fod yn rhan o'ch cais.

Os oes angen cyllid arnoch i wneud iawn am yr incwm sydd wedi'i golli er mwyn cadw staff, edrychwch ar [Gronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru](#) neu ewch i [cyllido.cymru](http://cyllido.cymru).

**Cwestiwn: Sut bydd penderfyniadau cyllido'n cael eu gwneud?**

Ateb: Bydd Aseswyr CGGC yn adolygu pob cais yn erbyn y meini prawf a osodwyd ar gyfer pob cwestiwn. Bydd pob cais yn dod gerbron panel a fydd yn penderfynu pa geisiadau fydd yn derbyn cyllid. Bydd y panel yn adolygu'r ceisiadau ar sail dreigl er mwyn lleihau'r amser rhwng ymgeisio am gyllid a'i dderbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r meini prawf ar gyfer ceisiadau ac amcanion y grant.

**Cwestiwn: A yw'n ddiogel i barhau â'n gweithgareddau?**

Ateb: Mae CGGC yn disgwyl i'r holl fudiadau gadw at ofynion [Llywodraeth y DU](#) a [Llywodraeth Cymru](#) wrth gyflawni unrhyw weithgareddau ac wrth weithio gyda'u cymunedau.

- Bydd [Llywodraeth Cymru](#) yn diweddarau'r canllawiau yn rheolaidd
- Canllawiau ar agor manau cymunedol yn ddiogel  
[http://wcva.cymru/cy/canllawiau\\_ar\\_gyfer\\_ailagor\\_canolfannau\\_cymunedol\\_yng\\_nghymru/](http://wcva.cymru/cy/canllawiau_ar_gyfer_ailagor_canolfannau_cymunedol_yng_nghymru/)
- Mae CGGC yn casglu canllawiau allweddol ar gyfer y sector  
<https://wcva.cymru/cy/datganiad-ar-y-coronafeirws/>

## **Cwestiwn: Pa mor hir fydd hi'n cymryd i dderbyn y cyllid?**

Ateb: Disgrifir y broses ymgeisio isod, ond bydd yr amser y bydd yn ei gymryd i chi dderbyn y cyllid yn dibynnu'n llwyr ar flaenoriaeth y gweithgareddau/gwasanaethau. Bydd ceisiadau blaenoriaeth uchel yn cael eu cyflwyno gerbron y panel cyn gynted â phosibl:

- 1) Bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio Porth Ymgeisio Amlbwrpas CGGC ([MAP](#)).
- 2) Bydd aseswyr yn adolygu'r holl geisiadau ac yn cysylltu â chi os oes unrhyw gwestiynau.
- 3) Cymeradwyaeth gan y Panel ar sail dreigl er mwyn osgoi oediadau.
- 4) Hysbysiad o gyllid drwy Lythyr Cynnig Grant a thaliad drwy BACs.

## **Cwestiwn: Pan na allaf weld y cais ar MAP?**

Ateb: Er mwyn gwneud cais i'r cylch grant, bydd angen i chi ymuno â chofnod mudiad sy'n bodoli eisoes ar MAP neu greu'r cofnod ar gyfer y mudiad eich hun. Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru ar MAP gan ddefnyddio'ch e-bost a chyfrinair unigol, bydd angen i chi greu neu chwilio am eich mudiad ar y tab mudiad.

Dylech wirio gyda phobl eraill eich mudiad i weld a ydyn nhw eisoes wedi creu cofnod ar gyfer y mudiad ar y system MAP. Gellir gweld fideo canllaw ar sut i gofrestru [yma](#).

## **Cwestiwn: Pam na allaf gwblhau'r Holiadur Cymhwysedd?**

Ateb: Nid oes angen cwblhau holiadur cymhwysedd er mwyn ymgeisio ar gyfer y gronfa. Gallwch fynd ar eich union i'r tab ymgeisio, dod o hyd i'r ffurflen gais a gwneud cais i'r gronfa.

## **Cwestiwn: A allwn ni wneud cais os nad oes gennym ni wirfoddolwyr?**

Ateb: Gallwch, gallwch chi wneud cais os caiff eich gwasanaethau eu darparu gan staff cyflogedig yn unig, ond bydd angen i'r mudiad ei hun fod yn adeiledd cyfreithiol cymwys.